Annwyl Gwsmer

## Ymgynghoriad cyhoeddus lleol - Dweud eich dweud

**Swyddfa Bost Phillipstown**
**A arferai fod yn: 5 Heol Derlwyn, Phillipstown, Tredegar Newydd, NP24 6AY**

Rydym yn bwriadu ailagor y gangen Swyddfa'r Post uchod mewn lleoliad newydd - 34 Stryd Jones, Phillipstown, Tredegar Newydd, NP24 6BB, lle byddai'n cael ei rhedeg fel un o'n canghennau lleol eu natur, yn amodol ar ymgynghoriad.

**Pam ydym yn argymell ailagor fel hyn?**
Oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd caeodd y gangen uchod ym mis Chwefror 2024. Felly, bu'n rhaid i ni gael hyd i leoliad arall er mwyn parhau i gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r gymuned leol. Mae'n dda gennym ddweud wrthych y penodwyd rhywun arall i redeg y gangen , mewn lleoliad gwahanol.

Ein blaenoriaeth yw diogelu ein gwasanaethau yn yr ardal yn yr hirdymor a byddai ailagor Swyddfa Bost Phillipstown yn golygu y byddem yn gallu cadw gwasanaeth Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol.

**Hoffem gael eich cymorth**
Rydym nawr yn dechrau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac mae eich adborth yn bwysig i ni oherwydd bydd yn ein helpu i wneud ein penderfyniad. Mae rhagor o fanylion am y gwasanaethau a fwriedir a hygyrchedd y safle yn y crynodeb o wybodaeth am y gangen yn nes ymlaen yn y ddogfen ymgynghorol hon.

**Am beth yn hollol rydym yn ymgynghori?**
Hoffem gael eich sylwadau ynghylch y canlynol:

- **Pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad newydd arfaethedig?**
- **A yw'n hawdd i chi fynd i mewn i'r adeilad newydd ac i symud o gwmpas y tu mewn?**
- **A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r gymuned leol a allai, yn eich barn chi, gael eu heffeithio gan y newid neu ddylanwadu arno?**
- **Pe bai'r symud yn digwydd, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud fel ei bod yn haws i gwsmeriaid?**

Mae'r newid a argymhellir i reolaeth y gangen yn benderfyniad i Swyddfa'r Post Cyf ac felly nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid.

| | |
|---|---|
| Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau | **28 Mawrth 2024** |
| Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben | **9 Mai 2024** |
| Mis y newid arfaethedig | **Mai/Mehefin 2024** |

Gallwch rannu eich sylwadau am y newid arfaethedig trwy ein holiadur hawdd a hwylus ar-lein ar postofficeviews.co.uk. Wrth fynd i mewn i'r wefan, gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer y gangen hon – naill ai yn ôl enw'r gangen, y cod post neu god unigryw'r gangen: **250632**

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

**Sut i rannu eich barn:**
**Hyb Ymgynghori (postofficeviews.co.uk)**
comments@postoffice.co.uk
Ffoniwch: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55
FREEPOST Your Comments – D.S. Hwn yw'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a anfonir drwy Freepost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd pen y daith, ac felly dylech ganiatáu digon o amser.

**Eisiau rhoi eich barn yma nawr?**
**Sganiwch fan hyn.**
Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael un yn eich siop apiau.

**Mae'n dda gwybod**

- Byddai cwsmeriaid yn cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn man gwasanaeth modern â chynllun agored a sgrin isel sydd yn rhan o gownter y siop.
- Trwy gydweithio â'r postfeistr, byddem, pe bai angen, yn addasu patrwm presennol y siop, ynghyd â'r celfi gosod a'r ffitiadau, er mwyn gwneud lle i dil y Swyddfa Bost.
- Byddai'r Swyddfa Bost yn cynnig dewis o gynhyrchion a gwasanaethau yn ystod oriau agor estynedig, fel gall cwsmeriaid ddefnyddio eu cangen pan mae'n gyfleus. Mae canran uchel o gwsmeriaid yn fodlon â changhennau lleol eu natur, ac mae llawer o gwsmeriaid yn ymweld y tu allan i'r oriau agor traddodiadol.
- Byddai'r holl staff a gyflogid i weithio yn y gangen newydd arfaethedig wedi derbyn hyfforddiant parhaus o'r safon uchaf mewn perthynas â chynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal â materion gweithredol a materion sy'n ymwneud â gwasanaeth
- Nawr bydd posteri a thaflenni yn cael eu harddangos yn y lleoliad newydd er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am yr argymhelliad a gofyn iddynt am eu sylwadau
- Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried yn ofalus wrth i ni baratoi ein cynlluniau terfynol
- Os ydych yn gynrychiolydd lleol, ar ddiwedd yr ymgynghoriad byddwn yn ysgrifennu atoch eto i ymateb i'r prif faterion a godwyd ac i esbonio ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen
- Mae'r ymgynghoriad hwn yn unol a'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Grŵp Defnyddwyr yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr Mae detholiad sy'n ymwneud ag Ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i Swyddfa Bost Phillipstown. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni. Mae ein manylion cyswllt ar frig y dudalen hon.

Diolch ichi am ystyried ein hargymhelliad.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Darpariaeth y Rhwydwaith**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

## Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Phillipstown

| Y lleoliad blaenorol: | Y Lleoliad Newydd Arfaethedig |
|---|---|
| **5 Heol Derlwyn**<br>**Phillipstown**<br>**Tredegar Newydd**<br>**NP24 6AY** | **34 Stryd Jones**<br>**Phillipstown**<br>**Tredegar Newydd**<br>**NP24 6BB** |

**Yr oriau agor blaenorol**

| | |
|---|---|
| Llun - Gwener | 09:00 – 13:00 |
| Dydd Sadwrn | Ar Gau |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Yr oriau agor arfaethedig**

| | |
|---|---|
| Llun - Sadwrn | 07:00 - 22:00 |
| Dydd Sul | 08:00 – 21:00 |

**Mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor rhai canghennau.**
**Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn**
**www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**Cynhyrchion a Gwasanaethau**
Byddai dewis o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.

**Mannau Gwasanaeth**
Byddai man gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gael wrth gownter y siop.

**Mynediad**
Byddai'r drws llydan i fynd i mewn i'r adeilad arfaethedig.
Y tu mewn, byddai dolen glyw a lle ar gyfer cadair olwyn.

**Cyrraedd yno**
Byddai'r gangen newydd arfaethedig tua 240 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

Byddai modd parcio wrth ymyl y ffordd y tu allan i'r adeilad arfaethedig ac ar hyd Stryd Jones.

**Manwerth**
Siop gyfleustra

| Y gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost Phillipstown | | |
|---|---|---|
| **I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.<br>Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan y sawl sy'n rhedeg y Swyddfa Bost.** | | |
| | **Y gangen gyfredol** | **Y gangen newydd** |
| **Post** | | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ | ✓ |
| Stampiau arbennig (Stampiau Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ | ✓ |
| Signed For | ✓ | ✓ |
| Special Delivery | ✓ | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ | ✓ |
| Parcelforce Express a chontract | ✓ | **Express 24 & 48** |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed) | ✓ | ✓ |
| Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✓ | × |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ | ✓ |
| Local Collect | ✓ | ✓ |
| Drop & Go | ✓ | ✓ |
| **Withdrawals, deposits and payments** | | |
| Bancio personol a busnes, codi arian, adneuon ac ymholiadau balans wrth ddefnyddio cerdyn. Hefyd, adneuo sieciau mewn amlenni a slipiau adneuo â chod bar. | ✓ | ✓ |
| Archebion Post | ✓ | ✓ |
| Moneygram | ✓ | ✓ |
| Talu biliau awtomatig (cerdyn, cod bar) | ✓ | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ | ✓ |
| **Travel** | | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ | ✓ |
| Atgyfeirio Yswiriant Teithio | ✓ | ✓ |
| | | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ | ✓ |

Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost **Tredegar Newydd**, 10 Stryd James, Tredegar Newydd, NP24 6EW

Yr oriau agor:
Llun – Sad 08:00 – 21:00
Sul 09:00 – 21:00

a

Swyddfa Bost **Aberbargod,** 93 Commercial Street, Aberbargod, Bargod, CF81 9EU

Yr oriau agor:
Llun – Sad 06:00 – 23:00
Sul 08:00 – 23:00

**<u>Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)</u>**

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Caiff yr Egwyddorion a ganlyn eu mabwysiadu wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

Byddwn yn **<u>Ymgynghori</u>** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn penderfynu am:

- Cau cangen Swyddfa'r Post yn barhaol[5]
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreinio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd)

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[6] er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Gofynnir i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw bwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn iddi.

Croesawn bob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

**Cytunwyd yr Egwyddorion hyn â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

<u>Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:</u>
Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu am y cwyn).

| | |
|---|---|
| **Postofficeviews.co.uk** | **Ffôn: 03452 66 01 15** |
| **Comments@postoffice.co.uk** | **Ffôn Testun: 03457 22 33 55** |
| **FREEPOST Your Comments** | |

[5] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, pan nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

[6] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.